

OCR

Oxford Cambridge and RSA

Dydd Mercher 13 Mai 2015 – Bore

**LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT
MEWN TGCh**

R001/02 Deall Systemau Cyfrifiadurol

ASTUDIAETH ACHOS

Amser: 1 awr



GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae hwn yn gopi glân o'r Astudiaeth Achos y dylech fod wedi ei gweld eisoes.
- Dylech gyfeirio ati wrth ateb cwestiynau'r arholiad sydd wedi eu hargraffu mewn llyfryn ar wahân.
- **Ni** chewch fynd â'ch copi blaenorol o'r Astudiaeth Achos i'r arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

CYFARWYDDYD I'R SWYDDOG ARHOLI/GORUCHWYLIWR

- Peidiwch ag anfon yr Astudiaeth Achos hon i'w marcio; dylid ei chadw yn y ganolfan neu'i hailgylchu. Cysylltwch â Hawlfraint OCR os byddwch yn dymuno aildddefnyddio'r ddogfen hon.

Gwybodaeth i Ddysgwyr

Mae cartwnau wedi'u hanimeiddio yn defnyddio graffeg liwgar, cymeriadau cryf a rhediadau stori (*storylines*) sy'n llawn dychymyg (Senario 1).

Gall cyfryngau cymdeithasol fod ar lawer o ffurfiau. Pan fydd defnyddwyr yn cofrestru i ddefnyddio gwefan cyfryngau cymdeithasol, maen nhw'n cytuno i ddilyn rheolau'r safle hwnnw. Gall darlunydd llawrydd (*freelance*) ddewis defnyddio cyfryngau cymdeithasol a dulliau digidol eraill i hysbysebu eu gwaith (Senario 2).

Senario 1

Cwmni cyhoeddi sy'n creu llyfrau, comics a chartwnau wedi'u hanimeiddio mewn ffrâm yw Animated World Books.

Mae Animated World Books yn cyflogi amrywiaeth o staff sy'n cydweithio i greu llyfrau, comics a chartwnau wedi'u hanimeiddio. Mae'r gweithwyr hyn yn cynnwys actorion, awduron, darlunwyr, animeiddwyr a pheirianwyr sain. Mae rhai o'r gweithwyr hyn yn gweithio ym mhrif swyddfa Animated World Books, ond mae gweithwyr eraill yn gweithio o gartref. Gall gweithwyr sy'n gweithio o gartref fyw unrhyw le yn y byd.

Mae Catherine yn gweithio fel rheolwr project i Animated World Books. Ei gwaith hi yw goruchwylio syniadau newydd o'r cyfnod dylunio cychwynnol, pan fydd syniadau am gymeriadau a storïau newydd yn cael eu trafod, hyd at greu'r asedau i'w defnyddio mewn cartwnau gorffenedig.

Mae Catherine hefyd yn gyfrifol am hysbysebu cymeriadau a rhediadau stori newydd i gyhoeddiadau masnach ac i'r cyhoedd. I gyd-fynd â delwedd uwch-dechnoleg Animated World Books, mae disgwyl i Catherine wneud cymaint o ddefnydd o dechnoleg newydd ag sy'n bosibl yn ei chyhoedduswydd. Yn ddiweddar, mae hi wedi bod yn edrych ar sut gall apiau ffôn clyfar gael eu defnyddio i hysbysebu cynnyrch newydd.

Senario 2

Mae Richard yn gweithio fel darlunydd i Animated World Books. Mae hefyd yn creu gwaith celf yn ei amser rhydd. Mae ganddo ei wefan ei hun, ac mae'n defnyddio'r wefan i werthu rhywfaint o'i waith celf ei hun. Mae cwsmeriaid sy'n dymuno prynu gwaith celf gan Richard yn gallu mynegi diddordeb trwy lenwi ffurflen cipio data ar ei wefan.

Pan na fydd e'n gweithio i Animated World Books neu ar ei waith celf ei hun, mae Richard yn teithio i gael syniadau newydd ar gyfer storïau a darluniau. Pan fydd e'n gweld rhywbeth sydd o ddiddordeb iddo, mae e'n defnyddio ei ffôn clyfar i dynnu llun o'r eitem. Weithiau, bydd Richard yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu'r llun â'i ffrindiau a'i gwsmeriaid. Ar adegau eraill, bydd e'n rhannu'r llun â chydweithwyr o Animated World Books yn unig.

Paratoi

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r modd y mae cwmni cyhoeddi yn defnyddio TGCh i ddylunio, creu, cyhoeddi a hysbysebu ei waith.

Dylai hyn gynnwys:

- y feddalwedd mae ei hangen i greu graffigwaith unigol ar gyfer cartwnau wedi'u hanimeiddio
- y defnydd sy'n cael ei wneud o amrywiaeth o ddyfeisiau mewnbynnu ac allbynnu
- dulliau meddalwedd sy'n cael eu defnyddio i greu a gwella cynnwys ffeiliau, a manteision gwneud hynny
- dulliau o ddiogelu ffeiliau rhag cael eu dwyn
- dulliau o gydweithio rhwng cydweithwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd daearyddol gwahanol.

Hefyd, dylech chi gael gwybod am waith darlunwyr llawrydd a'r modd y gallan nhw ddefnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol i rannu, hysbysebu a gwerthu eu gwaith.

Dylai hyn gynnwys:

- goblygiadau casglu data gan gwsmeriaid
- goblygiadau cyfreithiol defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol
- technolegau trosglwyddo data
- effeithiau negyddol posibl a allai gael eu hachosi gan orddefnyddio offer TGCh a dulliau o leihau, negyddu ac osgoi'r effeithiau hyn.

OCR

Oxford Cambridge and RSA

Gwybodaeth am Hawlfraint

Mae OCR wedi ymrwmo i ofyn caniatâd i atgynhychu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhychir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhychir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.